**Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru NWR 05-00(min)**

## Cofnodion

**Dyddiad:** Dydd Gwener 14 Gorffennaf 2000
**Amser:** 10.00am hyd 1.00pm
**Lleoliad:** Neuadd y Dref, Dinbych

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Gareth Jones, Cadeirydd (ar gyfer eitemau 1 a 2) | Conwy |
| Ann Jones, Cadeirydd (ar gyfer eitemau 3,4 a 5) | Dyffryn Clwyd |
| Christine Humphreys | Gogledd Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Dafydd Wigley | Caernarfon |
| *Heddlu Gogledd Cymru* | |
| Richard Brunstrom | Dirprwy Brif Gwnstabl |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

## Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a diolchodd i Gyngor Tref Dinbych am eu croeso a Chyngor Sir Dinbych am ddarparu lluniaeth. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis Thomas, Ieuan Wyn Jones, Alison Halford a John Marek.

## Eitem 1: Amcan 1

1.1 Yn ystod y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ym Mangor, awgrymodd Christine Humphreys y dylid pennu amser i drafod y prif faterion a gododd. Gofynnodd y Cadeirydd i Christine gyflwyno'r drafodaeth. Clustnododd Christine nifer o bwyntiau a godwyd gan y sawl a wnaeth y cyflwyniad yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mehefin:

- pwysigrwydd cadarnhau Ionawr 1 2000 fel y dyddiad ar gyfer adolygu'r sefyllfa;
- yr angen i ddarparu cymorth technegol i bartneriaethau lleol;
- diffyg lleoliad ar gyfer Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru yng Ngogledd Cymru;
- diffyg cynrychiolaeth i Ogledd Cymru ar y Pwyllgor Monitro Rhaglen.

1.2 Mynegwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- yn ogystal â phrider cynrychiolwyr ar strwythurau Amcan 1 allweddol, nid oedd unrhyw Aelodau o Ogledd Cymru ar Bwyllgor Datblygu Economaidd y Cynulliad. Tra bod cynrychioli Gogledd Cymru ar y Pwyllgor Monitro yn un o gyfrifoldebau'r Pwyllgor Gweithredol, roedd cyfansoddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn fater o bwys i bob Plaid.
- nid oedd safle daearyddol swyddfeydd SCEC yn bwysig iawn yn yr oes fodern o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- roedd yn bwysig cydnabod y byddai Cymru gyfan yn elwa o Amcan 1, ac na ddylai ddatblygu'n fater sy'n peri rhwygiadau.

**1.3 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd gan dynnu eu sylw at y pwyntiau allweddol a godwyd gan y sawl a fu'n bresennol yng nghyfarfod Bangor yngln ag Amcan 1.**

1.4 Ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 1.

**Eitem 2: Ethol Cadeirydd newydd**

2.1 Cyn i waith y Cynulliad gychwyn, dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno y dylid newid Cadeiryddion y pwyllgorau rhanbarthol bob blwyddyn. Dywedodd ei fod yn falch iawn o fod wedi cael y cyfle i fod yn Gadeirydd Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru am ei 12 mis cyntaf a diolchodd i'r Aelodau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad. Yna, gofynnodd am enwebiadau am Gadeirydd am y 12 mis nesaf. Cynigiwyd Ann Jones gan Tom Middlehurst. Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau eraill, a phenodwyd Ann Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor. Diolchodd i Gareth Jones am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Eitem 3: Gostwng troseddau**

3.1 Dywedodd y Cadeirydd mai'r prif eitem ar yr agenda oedd trafodaeth am faterion yn ymwneud â throseddu, heddlua a'r Ddeddf Trosedd ac Anrhefn. Croesawodd y Dirprwy Brif Gwnstabl, Richard Brunstorm i'r cyfarfod.

3.2 Rhoddodd Mr Brunstrom gyflwyniad i'r Pwyllgor yngln â'r dull gweithredu yn ymwneud â gostwng troseddau dan Ddeddf Trosedd ac Anrhefn 1998. (Cliciwch yma er mwyn gweld y cyflwyniad Powerpoint.). Mae'r Ddeddf yn dynodi'r Heddlu a’r awdurdodau lleol fel y prif bartneriaid sy'n gyfrifol am weithio gyda'r gwasanaeth prawf, awdurdodau iechyd a phartneriaid eraill o'r sectorau gwirfoddol,

cymunedol a busnes, i ddatblygu strategaethau lleol i ostwng troseddau ac anrhefn. Dan adran 5(2)c o'r Ddeddf, clustnodwyd y Cynulliad Cenedlaethol fel y corff sy'n cydweithredu â phartneriaethau lleol i ostwng troseddu. Gan fod y Ddeddf yn pennu *dyletswydd* ar gyrff dynodedig i gydweithredu, teimlai Mr Brunstrom ei bod yn bosibl y gallai tensiwn ddatblygu rhwng y Cynulliad ac asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig pe byddent yn digwydd anghytuno yngln ag unrhyw flaenoriaethau. Awgrymodd nad oedd y Cynulliad wedi deall goblygiadau'r broses o ddynodi'n llawn a'i fod wedi rhoi ei hun mewn sefyllfa gyfansoddiadol anodd.

3.3 Gwnaethpwyd llawer o waith ardderchog i ddelio â throsedd ac anrhefn yng Ngogledd Cymru eisoes. Sefydlwyd grp llywio rhwng prif swyddogion yn y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru er mwyn cyfrannu at werth y trefniadau partneriaeth. Nododd y Dirprwy Brif Gwnstabl rai o'r cyflawniadau rhanbarthol a welwyd hyd yn hyn megis Drugs Caution Plus, Gwasanaeth Ymyrryd Cyfiawnder Troseddol, *Seniorlink* Sir y Fflint, Cynghrair Beiciau Modur Gogledd Cymru a Phrotocol Rhannu Data.

3.4 Byddai Cyfarwyddwr Gostwng Troseddau i Gymru yn cael ei benodi/phenodi cyn bo hir, a fyddai'n atebol i'r Ysgrifennydd Cartref a'r Prif Ysgrifennydd. Dywedodd Mr Brunstrom nad oedd swyddogaeth y Cyfarwyddwr yn eglur a bod yr unigolyn wedi cael ei benodi gan y Swyddfa Gartref.

3.5 Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Pwyllgor drafod y mater, a mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- mynegwyd pryder yngln â'r tensiwn posibl rhwng y Cynulliad ac asiantaethau eraill mewn partneriaethau trosedd ac anrhefn. Fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, dywedodd Janet Ryder y byddai'n awgrymu y dylid estyn gwahoddiad i Mr Brunstrom roi cyflwyniad tebyg i'r Pwyllgor hwnnw;
- gofynnwyd i Mr Brunstrom sut yr oedd yn diffinio cydweithredu rhwng yr asiantaethau statudol a sut y byddai'r partneriaethau gydag awdurdodau lleol a'r awdurdod iechyd yn cael eu datblygu. Dywedodd fod y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn yn pennu dyletswydd statudol ar yr asiantaethau i gydweithredu. Roedd hyn yn golygu cydweithio er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd gan rannu adnoddau. Roedd y Gwasanaeth Ymyrryd Cyfiawnder Troseddol, a oedd yn cael ei ariannu gan yr Heddlu, yr awdurdodau lleol a'r awdurdod iechyd, yn enghraifft dda;
- gofynnwyd i Mr Brunstrom sut y gallai'r Cynulliad gydweithio'n well gyda'r Heddlu. Dywedodd fod y pedwar llu yng Nghymru yn bwriadu penodi uwch swyddog i weithio yn y Cynulliad fel swyddog cyswllt;
- sefydlwyd gwasanaeth cyfryngu o'r enw Marvel, sydd wedi gwneud rhywfaint o waith da, ond nid oedd yn ymddangos bod yr Heddlu'n gefnogol iawn. Dywedodd Mr Brunstrom nad oedd wedi clywed am Marvel, ond y byddai'n archwilio'r mater. Dywedodd Harry Teaney o Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru fod y cynllun yn llwyddo a'i fod yn cael ei estyn i ardaloedd newydd;
- mynegwyd pryderon yngln â'r achosion o fân droseddau mewn ardaloedd gwledig, sy'n aml yn gysylltiedig â chyffuriau. Roedd yn dasg anodd i'r Heddlu gynnal presenoldeb mewn pentrefi gwledig, ond roedd yn bwysig eu bod yn cyflawni hyn er mwyn sicrhau cyswllt â chymunedau lleol. Roedd y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn yn darparu pwerau i ddelio ag yfed mewn trefi a phentrefi a gofynnwyd am sicrwydd y byddai Heddlu Gogledd Cymru yn manteisio ar y pwerau

hyn. Dywedodd Mr Brunstrom fod yr Heddlu, dros yr 20 mlynedd diwethaf, wedi mabwysiadu dull gweithredu tebyg i’r dull gweithredu i ddelio â thanau wrth ddelio â throseddau – sef ymateb i ddigwyddiadau o ganolfannau canolog. Roedd hyn yn sicrhau bod yr adnoddau’n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, ond nid oedd wedi cynorthwyo i wella amgyffred y cyhoedd o swyddogaeth yr Heddlu. Roedd yr Heddlu yn tueddu i ganolbwyntio eu hadnoddau ar droseddau mwy difrifol hefyd. Roedd mân droseddau'n effeithio ar bawb, felly roedd angen i'r Heddlu wneud mwy o ymdrech wrth ddelio â mân droseddau er mwyn llunio cyswllt â'r cyhoedd unwaith eto. Roedd cynnal gwasanaeth yr heddlu mewn ardaloedd gwledig yn ddrud ac roedd Mr Brunstrom yn croesawu'r addewid o gyllid ychwanegol;

- roedd y Ddeddf Trosedd ac Anrhefn yn caniatáu gweithredu yn erbyn ymddygiad anghymdeithasol trwy gyfrwng gorchmynion ymddygiad anghymdeithasol. Dywedodd Mr Brunstrom fod Heddlu Gogledd Cymru yn bwriadu manteisio ar bwerau'r Ddeddf;
- gallai ymddygiad anghymdeithasol a mân droseddau amharu ar fywydau pobl ond, yn fwy aml na pheidio, nid oedd y dioddefwyr yn fodlon sôn wrth yr heddlu am unrhyw ddigwyddiadau rhag ofn y byddai rhywrai'n dial arnynt. Byddai cynllun tystion annibynnol yn sicrhau bod y troseddwyr yn cael eu herlyn. Dywedodd Mr Brunstrom ei fod yn cefnogi'r syniad ac y byddai'n ceisio ei ddatblygu.
- Gofynnwyd i Mr Brunstrom a oedd rhannu data'n broses â llaw, neu a oedd yn cael ei wneud ar gyfrifiadur. Dywedodd fod y system yn un â llaw ar hyn o bryd, ond bod yr Heddlu yn agor ei rwydwaith i asiantaethau eraill yn rhad ac am ddim;

3.6 Yna, gofynnodd y Cadeirydd am gwestiynau a sylwadau gan y Pwyllgor. Mynegwyd y pwyntiau canlynol:

- Cwestiynodd John Patterson o Gymdeithas Denantiaid Dinbych, ymrwymiad yr Heddlu i bartneriaeth gan nad oeddent wedi cyfarfod â'r Gymdeithas Denantiaid yn ystod y 12 mis diwethaf. Cytunodd Mr Brunstrom i siarad â Mr Patterson y tu allan i'r cyfarfod;
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Glyn Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, at ddyletswydd y Cynulliad i gydweithredu â'r partneriaethau gostwng troseddau a gofynnodd sut yr oedd y Cynulliad yn asesu'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cefnogi partneriaethau lleol. Awgrymodd y dylid ei gwneud yn haws i grwpiau lleol adnabod a chael myendiad i'r cronfeydd ariannol oedd ar gael. Dywedwyd wrth y Cynghorydd Jones y byddai ariannu yn cael ei godi gyda'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai;
- Dywedodd Mike Denman, Swyddog Diogelwch Cymunedol, Cyngor Sir Dinbych, ei bod yn ymddangos, yn dilyn penodi Cyfarwyddwr Gostwng Troseddau i Gymru a phennu targedau a dangosyddion perfformiad allweddol, mai ar reolaeth ganolog yr oedd y pwyslais yn hytrach na datblygu dulliau lleol i ddatrys y broblem. Ategodd y pryderon yngln ag ariannu a dywedodd fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi codi'r mater gydag Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol. Mewn ymateb, cydnabu aelodau'r Pwyllgor bod angen adnoddau i ddelio ag ymddygiad anghymdeithasol, ond roedd y Cynulliad yn buddsoddi'n sylweddol mewn addysg a hyfforddiant i'r ifanc. Byddai rhaglenni ehangach, megis y rhai hynny a amlinellwyd yn *Better Wales* i ddatblygu'r broses o gynnwys pobl yn gymdeithasol ac annog datblygu economaidd, hefyd yn effeithio ar fân droseddau ac ymddygiad anghymdeithasol;

- Dywedodd Richard Davies o Gymdeithas Preswylwyr Craig y Don fod cofeb Sophie Hook ar bromenâd Llandudno wedi cael ei ddifrodi dro ar ôl tro a gofynnodd a oedd Mr Brunstrom yn ymwybodol o'r mater. Dywedodd Mr Brunstrom ei fod yn ystyried digwyddiadau o'r fath yn ddifrifol iawn a chynigiodd drafod y mater gyda Mr Davies y tu allan i'r cyfarfod;
- Dywedodd Pat Warden, Cymorth i Ddioddefwyr Sir Ddinbych nad oedd gan yr Heddlu yr hawl, dan y Ddeddf Gwrachod Data, i ofyn i'r rhai sydd wedi dioddef oherwydd trosedd a oeddent yn dymuno i Gymorth i Dioddefwyr gysylltu â nhw. Dywedodd Mr Brunstrom fod y gyfraith yn dymuno rhoi'r hawl i ddioddefwyr ddewis faint o gefnogaeth yr oeddent yn dymuno ei dderbyn ac roedd angen datblygu dull gweithredu newydd ar gyfer darparu cymorth i ddioddefwyr;
- Dywedodd Chris Ruane, AS Dyffryn Clwyd, fod Cyngor Bwrdeistref Islington wedi llunio "cytundeb ymddygiad derbyniol" arbrofol. Gellid gofyn i'r rhai sy'n debygol o droseddu i lofnodi cytundeb am chwe mis. Yn ystod y cyfnod hwnnw, byddai cyfarfodydd yn cael eu cynnal gydag un o swyddogion yr heddlu, gweithwyr ar y ystad ac asiantaethau perthnasol eraill bob mis. Gellid defnyddio'r cytundeb mewn llys sifil mewn cysylltiad â gorchymyn yn ymwneud ag ymddygiad anghymdeithasol neu orchymyn troi allan. Gadawodd Mr Ruane amlinelliad o'r cynllun ar gyfer y Pwyllgor a dywedodd bod copi wedi cael ei anfon i Heddlu Gogledd Cymru;
- Cododd Janet Grocott, Swyddog Polisi, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fater faint o adnoddau sydd ar gael ar gyfer gostwng troseddau hefyd;
- Dywedodd Richard Spain, Uned Bolisi, Cyngor Sir y Fflint, fod y swyddogion sy'n gyfrifol am ostwng troseddau mewn awdurdodau lleol wedi sefydlu grp llywio ac awgrymodd fod hwn yn fforwm addas i ymgynghori â'r Cynulliad yngln â materion yn ymwneud â gostwng troseddau;
- Dywedodd John Anderson, Cadeirydd Pwyllgor Llys yr Ynadon eu bod yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a allai ddarparu fforwm i fynegi safbwyntiau gerbron y partneriaethau trosedd ac anrhefn. Nid oedd llawer yn mynychu'r cyfarfodydd hyn fel arfer, fodd bynnag. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i roi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd o'r fath yn eu hetholaethau pe byddent yn derbyn manylion amdanynt ymlaen llaw;
- Dywedodd Harry Teaney, Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru, fod yr Awdurdod wedi ymrwymo i ddelio â throsedd ac anrhefn mewn partneriaeth ar bob lefel. Roedd yn agenda eang a chymhleth a phwysleisiodd bwysigrwydd gweithio ar y cyd.

3.7 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor gytuno ar bwyntiau gweithredu i ddelio â'r materion a godwyd. Cytunwyd:

- i anfon llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gan awgrymu y dylai'r Pwyllgor ystyried yr adnoddau a glustnodir ar gyfer partneriaethau trosedd ac anrhefn a thynnu sylw at y pwyntiau a godwyd yng nghyflwyniad Richard Brunstrom. (Ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 1);
- i anfon llythyron at yr Ysgrifennydd Cyllid, a chopi at Gadeiryddion y pwyllgorau pwnc ac Ysgrifenyddion y Cynulliad yn gofyn am wybodaeth yngln â'r holl ffynonellau ariannu ar gyfer materion yn ymwneud â throsedd ac anrhefn y gellid manteision arnynt yn lleol. (Ceir copi o'r llythyr a anfonwyd yn atodiad 1);
- i anfon y papur a ddarparwyd gan Chris Ruane AS yngln â "chytundeb ymddygiad derbyniol" Islington i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai;

- y byddai aelodau'r Pwyllgor yn cynorthwyo i roi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd cyhoeddus Pwyllgor Llysoedd yr Ynadon;
- i gynnwys eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf i adrodd yn ôl ar y camau gweithredu hyn.

3.8 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Brunstrom am ei gyflwyniad ac i bawb a gyfrannodd at y drafodaeth.

**Eitem 4: Blaen-raglen waith**

4.1 Dywedodd y Cadeirydd mai'r bwriad oedd cynnal cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor ar 27 Hydref ac 8 Rhagfyr. Dosbarthwyd papur yn amlinellu ychydig opsiynau i'w trafod. Gofynnodd y Cadeirydd am unrhyw sylwadau a gwnaethpwyd yr awgrymiadau canlynol:

- dylai'r Pwyllgor ystyried y ddarpariaeth addysg ar gyfer y blynyddoedd cynnar yng Ngogledd Cymru. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n well ystyried y mater ar ôl i adroddiad y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Cyn 16 gael ei gyhoeddi;
- dylai'r Pwyllgor ystyried llinell rheilffordd Gogledd Cymru ac estyn gwahoddiad i Railtrack a chwmnïau eraill sy'n rhedeg trenau, fynychu;
- dylai'r Pwyllgor ystyried datblygu rhwydwaith opteg ffibr yng Ngogledd Cymru a throsglwyddo ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Roedd Prif Weithredwyr yr awdurdodau lleol yn awyddus i gyfarfod ag Aelodau'r Pwyllgor ac awgrymwyd y dylid ffurfio grp sy'n cynnwys aelodau o bob plaid i ystyried y mater ar fyrder;

4.2 Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn awyddus i'r Pwyllgor gyfrannu at yr ymgynghoriad yngln ag Asesiadau Gwariant Safonol awdurdodau lleol sy'n cau yn gynnar ym mis Medi. Awgrymodd y gellid cynnal cyfarfod ychwanegol ym mis Medi pan allai'r Pwyllgor ystyried "Communities First" hefyd. Gofynnodd i'r Clerc archwilio'r posibilrwydd o ddod o hyd i amser ar gyfer cyfarfod ychwanegol. Gan grynhoi, dywedodd y Cadeirydd:

- byddai'r posibilrwydd o drefnu cyfarfod arall ym mis Medi yn cael ei archwilio. Byddai'r cyfarfod yn ystyried Asesiadau Gwariant Safonol a Communities First;
- byddai'r cyfarfod ar 27 Hydref yn ystyried y rhwydwaith opteg ffibr a chysylltiadau trafnidiaeth, ond ni chlustnodwyd lleoliad y cyfarfod yma eto.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin**

5.1 Gofynnodd y Cadeirydd i dudalennau'r cofnodion gael eu rhifo er mwyn ei gwneud yn haws cyfeirio at unrhyw ddeunydd ynddynt. Yna, mabwysiadwyd y cofnodion gan y Pwyllgor.

**Ysgrifenyddiaeth** **Gorffennaf 2000**

**Atodiad 1**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru**
**North Wales Regional Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Rhodri Morgan AC AS
Prif Ysgrifennydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date 1 Awst 2000

Annwyl Rhodri,

**Amcan Un**

Yn ei bwyllgor ym mis Mehefin, clywodd Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru oddi wrth ystod o sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yngln â datblygiad prosiectau Amcan Un . Cytunodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig ein bod yn cyfleu pryderon y rhai sy'n gweithio ar brosiectau Amcan Un yng Ngogledd Orllewin Cymru i chi.

Y pryderon allweddol, cyffredin oedd:

- ei bod yn bwysig taw'r 1 af o fis Ionawr 2000 yw'r **dyddiad ôl-weithredu** , fel y gall y nifer mwyaf posibl o brosiectau fanteisio ar y cyllid;
- bod angen darparu cyllid **cymorth technegol** i bartneriaethau lleol;
- bod angen **cynrychiolaeth** ar strwythurau allweddol Amcan Un er mwyn sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion yr ardal yn llawn. Tangynrychiolir Gogledd Orllewin Cymru ar nifer o grwpiau pwysig, er enghraifft Pwyllgor Monitro'r Rhaglen a'r Partneriaethau Cynllun Gweithredu

Rhanbarthol;

- nad oes un o **swyddfeydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru** wedi ei lleoli'n hwylus i ddarparu cymorth a chefnogaeth i Ogledd Cymru. Teimlai sawl sefydliad y gellid rheoli a datblygu'r rhaglenni strwythurol Ewropeaidd yn fwy effeithiol pe lleolid swyddfa yng Ngogledd Cymru gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Teimla'r Pwyllgor ei bod yn hollbwysig i arddangos i'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd pwyllgorau rhanbarth bod eu cyfraniadau'n rhai gwerthfawr. Byddwn yn ddiolchgar, felly, petaech yn ymateb i'r pwyntiau a godir yn y llythyr hwn, a hynny mewn digon o bryd i'ch ymateb gael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar y 27ain o fis Hydref.

Yn gywir

**Ann Jones AC**
Cadeirydd Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru

---

**Atodiad 2**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
**North Wales Regional Committee**

Gwenda Thomas AC
Cadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date 1 Awst 2000

Annwyl Gwenda

**Trosedd ac anrhefn**

Yn ei gyfarfod ar y 14eg o fis Gorffennaf, trafododd Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru faterion trosedd ac anrhefn, a chyfrifoldebau'r Cynulliad o dan adran 5 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1988.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Richard Brunstrom, Dirprwy Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Cyflwynodd Mr Brunstrom arolwg o rôl a gweithgareddau partneriaethau lleol lleihau torcyfraith yng Ngogledd Cymru. Canolbwyntiodd hefyd ar rôl y Cynulliad, fel corff a ddynodwyd o dan adran 5 (2) (c) y Ddeddf, a'r tensiwn y gallai hyn ei greu rhwng y Cynulliad ac aelodau statudol eraill y partneriaethau, o bosibl.

Cododd Mr Brunstrom nifer o bwyntiau diddorol, a theimlodd rhai Aelodau y dylech ystyried ei wahodd i wneud cyflwyniad tebyg i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn y drafodaeth ddilynol gydag aelodau'r cyhoedd ac eraill sydd â diddordeb yn y mater, mynegwyd pryder yngln â pha mor ddigonol yw'r adnoddau sydd ar gael i fentrau lleol sy'n mynd i'r afael â throsedd ac anrhefn. Yn arbennig, cytunwyd bod angen dod o hyd i'r pocedi niferus o gyllid perthnasol y gellid eu defnyddio.

Roedd Chris Ruane AS (Dyffryn Clwyd) yn bresennol yn y cyfarfod, a thynnodd sylw'r Pwyllgor at gynllun arbrofol gan Gyngor Bwrdeistref Islington o'r enw "Acceptable Behaviour Contracts". Ymddengys bod gan y cynllun nifer o nodweddion diddorol, ac mae'r papur amgaeedig yn rhestru'r rhain mewn mwy o fanylder.

Os ydych yn teimlo y gallech ddatblygu unrhyw un o'r pwyntiau hyn ymhellach, byddwn yn ddiolchgar petaech yn gadael i mi wybod, fel y gallaf roi gwybod i'r Pwyllgor.

Yn gywir

**Ann Jones**
**Cadeirydd, Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru**

---

**Atodiad 3**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd**
**North Wales Regional Committee**

Edwina Hart AC
Ysgrifennydd Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref

Dyddiad / Date 1 Awst 2000

Annwyl Edwina

**Trosedd ac anrhefn**

Yn ei gyfarfod ar y 14 eg o fis Gorffennaf, trafododd Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru faterion trosedd ac anrhefn, a chyfrifoldebau'r Cynulliad o dan adran 5 Deddf Trosedd ac Anrhefn 1988.

Yn y drafodaeth ddilynol gydag aelodau'r cyhoedd ac eraill sydd â diddordeb yn y mater, mynegwyd pryder yngln â pha mor ddigonol yw'r adnoddau sydd ar gael i fentrau lleol sy'n mynd i'r afael â throsedd ac anrhefn. Yn benodol, cytunwyd bod angen dod o hyd i'r pocedi niferus o gyllid perthnasol y gellid eu defnyddio.

Cred Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru y byddai cryn werth mewn datblygu cronfa ddata o ffynonellau cyllid y gellid cael gafael arnynt ar lefel leol, er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac anrhefn. Teimla'r Pwyllgor y byddai adnodd o'r fath, drwy enwi ffynonellau cyllid ar draws ystod eang o feysydd polisi, o gymorth sylweddol i'r rheini sy'n cymryd rhan mewn gweithredu strategaethau lleihau torcyfraith.

Amserlenwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar gyfer y 27 ain o fis Hydref, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i argymhelliad y Pwyllgor mewn digon o bryd i mi adrodd i'r cyfarfod hwnnw.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd pob pwyllgor pwnc ac at Ysgrifenyddion y Cynulliad.

Yn gywir

**Ann Jones**
**Cadeirydd Pwyllgor Rhanbarth Gogledd Cymru**